# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

---------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 18 Tachwedd 2025.

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod. Yn abseboldeb y cadeirydd, cadeirwyd y cyfarfod gan Eifion Jones.

**2. <u>Ymddiheuriadau</u>** – Eleri Mai Owen, Gwenno Griffiths, Guto Rhys Huws, Iwan Williams, Sion Tomos,

**<u>Presennol</u> –** Eifion Jones, Eirian Allport, Elias Jones, Thomas Williams, Ken Williams, Cyng Dafydd Davies, Aaron Hughes.

**3. <u>Cofnodion cyfarfod 21 Hydref 2025</u>** – Cynigwyd gan Elias Jones ac eiliwyd gan Thomas Williams fod y cofnodion yn gywir.

**4. <u>Materion yn Codi</u>**

1. Ynys Wyllt – dim i'w adrodd. Y clerc wedi cysylltu â'r gyfreithwraig ond wedi derbyn ymateb ei bod wedi derbyn triniaeth a bydd dod nôl atom maes o law.

2. Mynediad i'r fynwent – dim i'w adrodd. Y clerc wedi cysylltu â'r gyfreithwraig ond wedi derbyn ymateb ei bod wedi derbyn triniaeth a bydd dod nôl atom maes o law.

3. Pont Tai Lôn a Pantafon – y gwaith yma dal heb ei orffen.

4. Coed Aberdesach – Gwenno Griffiths am ddilyn fyny ar hyn. Mae coed wedi ei derbyn gyda arian Grant Gwynedd Ni, caiff rhai eu gosod yma os oes angen.

5. Arwydd cyflymder – yr arwydd newydd wedi cyrraedd ond angen ei osod. Holi pryd fydd yn cael ei osod. Cyng. Dafydd Davies am ddilyn fyny ar hyn.

6. Deffibs – the circuit angen ei ddiweddaru.

7. Biniau – disgwyl am ymateb ynglŷn â'r bin ar gyfer llwybr Cae Bont. Holi ynglŷn â cael bin ger y garej,

8. Llwybr Lan Môr – Thomas Williams wedi cael gair gyda'r pysgotwyr am gael rhoi railings mewn darn sydd yn eithaf peryglus wrth yr afon – digwyl ymateb gan y pwyllgor. Trafod efallai y buasai yn syniad i'r Cyngor Cymuned wneud y gwaith o osod railing. Rhai aelodau o'r farn mai Cyngor Gwynedd ddylai fod yn gyfrifol am hyn. Cyng Dafydd Davies am gysylltu â swyddog llwybrau i gael cyfarfod ar y safle i weld.

9. Llwybr o Bryscyni Ganol i Bryscyni Uchaf –adrodd nad yw hwn yn lwybr cyhoeddus felly ni fydd Cyngor Gwynedd yn gwneud dim am hyn.

10. Clwb Ieuenctid a chais grant Gwynedd Ni – y gwaith hwn mewn llaw.

11. Cwynion am chwyn o gwmpas y pentrefi – Cyng Dafydd Davies wedi holi Tim Tacluso os am ddod i'w drin – disgwyl ymateb ganddynt.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad …………………………………………………………….

12. Pryderon goddiweddu Aberdesach – nid oedd dim pellach i'w adrodd ar hyn yn y cyfarfod yma.

13. Ffoes Simbil – Cyng Dafydd Davies wedi trio cysylltu a swyddog Cyngor Gwynedd ond heb gael ymateb. Am geisio cael cyfarfod âg o ar y safle.

**5. Ceisiadau cynllunio** – nid oedd cais cynllunio i'w drafod

**6. Materion ariannol**

a) <u>Sefyllfa ariannol ar 28 Hydref 2025</u>

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £32.68 |
| Cyfrif cyfredol | £20725.44 |

Trafodwyd ynglŷn â talu y gweddwon o'r cyfrif elusen – cynnigwyd i beidio a rhoi rhodd eleni gan nad oes llawer yn y cyfrif.

Cynnigwyd y dylid edrych fewn i godi rhent y safleoedd sydd yn berchen i'r Cyngor Cymuned. Trafodwyd y mater a cynnigwyd ac eilwyd i Aaron Hughes holi LWH am hyn.

**7. Gohebiaeth -** pawb wedi cael copïau o'r ohebiaeth a dderbyniwyd dros y mis i edrych drostynt. Aethpwyd drwy'r ohebiaeth a rhoi cyfle i unrhyw un godi unrhyw fater.

**8. Materion aelodau** – **Elias Jones** – arwyddion ffyrdd wedi trio ac angen sylw. Ffosydd ochor y ffyrdd wedi cau ac angen eu glanhau. **Thomas Williams** – holi a oes modd cyfrannu yn ariannol tuag at sefydliadau lleol gan fod yna arian yn y cyfrif at ddiwedd y flwyddyn. Angen hysbysebu bod angen i sefydliadau roi cais i fewn am arian cyn diwedd mis Ionawr 2026. Gofyn os oes posib cael bwrdd picnic i'w osod ger ceg yr afon yn Pontllyfni? Trafod hyn yng nghyfarfod mis Ionawr.

**9. Materion eraill –** golau Nadolig – trafod y mater i gael golau nadolig ar gfyer y pentrefi. Clerc i holi am brisiau gan RJ Electrics, LITE a Cyngor Gwynedd.

**10. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 16 Rhagfyr 2025 am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Bentref yng Nghlynnog.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad …………………………………………………………….